Cofnodion cyfarfod 12 Hydref 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
Miss Ashley	Sarah Riley	
Aled Emyr	Mair Bebb Jones	
George Smith		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Hydref. **Ymddiheuriadau**: Yasmin Khan, Peter Simpson, Gruff John. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau ffyddloniaid gweithgareddau'r pentref yn ddiweddar a bod cydymdeimlad y Cyngor yn cael ei ddatgan. Cydymdeimlad dwysaf hefyd gyda'r Cynghorydd Peter Simpson yn ei brofedigaeth	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyflwynodd y Cynghorydd Sir ei adroddiad ar lafar. Dywedodd ei fod wedi bod mewn cyfarfod ynglŷn â chynnig y Grid Cenedlaethol o godi 4 peilon o Bentir lawr i Garth mawr, pellter oddeutu kilo medr a hanner. Cafwyd trafodaeth ynglŷn a'r mater. Penderfynwyd cynnal cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Pentir os oedd Cyngor Pentir yn cyd-fynd. Y Clerc i gysylltu â Chlerc Pentir. Trafodwyd eitemau eraill hefyd, mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr eitemau sydd yn dilyn.	**CLERC**
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 12 Gorffennaf 2016 a 11 Medi 2016. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a'u harwyddo fel rhai cywir.**	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau -** dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth Gareth Roberts Menter Fachwen bod y mapiau'r teithiau cerdded wedi eu printio a'u bod bellach yn disgwyl fframiau. Mae Gareth Roberts yn pwyso ar yr adran goed i symud ymlaen a hyn gyn gynted â phosib. Y Clerc i siarad â Phrif Weithredwr Menter Fachwen i dynnu sylw at yr oedi sydd wedi bod..	**CLERC**
5.2	Biniau Halen - dim gwybodaeth bellach hyd yma.	**CLERC**
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar. Roedd cyfarfod safle wedi bod gyda'r adeiladwyr ynglŷn â'r gwaith cynnal i'r to a bod	**DW**

	gwaith ychwanegol rhoddwyd eglurhad am hyn. Mae'r pensaer wedi cydnabod derbyn adroddiad ynglŷn â'r tamp a bydd yn trefnu i archwilio. Derbyniwyd trwydded adloniant. Mae angen gwneud gwaith i un ffenest, golau'r foyer. Angen roller blinds ar gyfer y foyer.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Medi.	
7.2	Cyflwynwyd adroddiad atodol sydd yn egluro sefyllfa talu anfonebau gwaith cynnal a chadw'r cloc, gwaith prosiectau ac yn y blaen ynghyd a derbyn cymorth ariannol oddi wrth amrywiol ffynonellau.	
7.3	Derbyniwyd adroddiad BDO LLP am y flwyddyn ariannol 2015-2016 gan gynnwys barn yr archwilwyr allanol bod y cyfrifon yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo. Roedd dau fater ar y cynllun gweithredu: i- Cyflwyno cymhariaeth pob chwe mis o'r gyllideb drafft a'r gwariant er mwyn monitor y gyllideb. ii- ii- Llythyr ymrwymiad gan gynnwys sgôp yr aseiniad apwyntio archwiliwr mewnol ar gyfer cyrraedd disgwyliadau'r Cyngor.	
7.4	Cyflwynwyd llythyr ymrwymiad ar gyfer yr archwiliwr mewnol ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor. Roedd y cyngor yn fodlon a chynnwys y llythyr a'i dderbyn.	
7.5	Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Ariannol am ei waith a'r cyfrifon. Fe'i llongyfarchwyd gan y Cyngor.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Cais Trwyddedu Eiddo** - Ifor Food Serv Ltd, 34 Beach Road, Y Felinheli - Y Clerc i anfon sylwadau i wrthwynebu y cais ar sail materion cymdeithasol fel hawliau cymdogion, parcio, sŵn, pwysau ar finiau sydd yn orlawn yn barod a gostyngiad mewn casgliadau. Cae chwarae plant yn agos a byddai llafnau yn ymgynnull yma ac yn creu niwsans cyhoeddus fin nos.	**CLERC**
8.2	**Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru at Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2017 -** penderfynwyd rhoi'r eitem ar yr agenda ar gyfer mis nesaf.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Gwaith wedi ei gwblhau. Angen rhoi anfonebau gyda'i gilydd ac anfon hwy ymlaen ynghyd a thalebion oddi wrth y contractwr at CADW.	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C15/0808/20/LL - cais ôl gweithredol i gadw	

	pontŵn o fewn y cei - Menai Marina, Hen Gei Llechi Y Felinheli Ll56 4JN (Apêl) - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.2	C15/0807/20/CR - cais ol-weithredol i gadw pontwn o fewn y cei - Menai Marina, Hen Gei Llechi Y Felinheli LL56 3JN (Apêl) - **Cafwyd esboniad o'r rheswm yr apêl gan Y Cynghorydd Sir. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r giatiau.**	
10.3	C16/1205/20/LL - Codi estyniad deulawr cefn gyda balcony ac estyniad unllawr blaen (cais diwygiedig i gais ad yn flaenorol C16/0698/20/LL) - 33 Y Wern Y Felinheli, Gwynedd. - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Dim i'w adrodd.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwr y lafant. Y Cadeirydd i drafod ymhellach o gyflwyno lafant newydd ar y safle gyda'r Cynghorydd Peter Simpson.	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Y Cadeirydd i drefnu gwneud ymgyrch tacluso'r pentref.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn ynglŷn â chynllun gwarchod yr arfordir wedi ei dderbyn	
15.0	**GWEFAN**	
	Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer y 18fed o'r mis i drafod datblygiad y wefan.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:30	
Llofnod:		Dyddiad: